

22<sup>ain</sup> o Ionawr 2021

Annwyl riant/ofalwr,

Rydym yn deall pa mor anodd yw'r cyfnod hwn i lawer o'n disgyblion, a hefyd i chi fel rhieni a gofalwyr. Nid yw trio cadw i fyny â gwaith ysgol o adre bob amser yn syml i rai disgyblion, gyda llawer o wrthdynciadau yn ei gwneud hi'n anodd iddynt gadw i fyny â'r gwaith sy'n cael ei osod. Mae eraill yn gweld hi'n haws gwneud hyn ac felly mae'n anodd weithiau i osod gwaith y gall pawb ei gyflawni. Rydym yn ceisio bod yn hyblyg yn ein disgwyliadau ond nid yw hyn bob amser yn bosibl.

Wrth i'r cyfnod cloi barhau, rydym yn ymwybodol bod nifer sylweddol o'n disgyblion yn ei chael hi'n anodd rheoli eu llwyth gwaith, ac yn treulio gormod o amser o flaen eu cyfrifiaduron yn ddyddiol er mwyn ymgysylltu â'u gwersi ac i sicrhau bod yr holl dasgau'n cael eu cwblhau a'u cyflwyno mewn pryd. Er ein bod yn edmygu eu hymrwymiad ac yn falch iawn gyda'r ymdrechion enfawr y mae llawer o'n disgyblion yn eu gwneud, rydym hefyd yn ymwybodol nad yw gweithio am gyfnod hir fel hyn yn dda i'w hiechyd a'u lles. Rydym wedi gwrandao ar y nifer ohonoch sydd wedi cysylltu â ni yn ddiweddar i rannu eich pryderon am y straen a'r pryder y mae hyn yn ei roi ar eich plant.

Fel cam cyntaf felly, **rydym yn bwriadu atal yr amserlen addysgu ar ddydd Mercher bob wythnos. Byddwn yn galw'r dyddiau hyn yn Ddydd Mercher Lles.** Ar ddydd Mercher Lles:

- ni fydd angen iddynt ddilyn eu hamserlenni;
- Yn lle hynny, gallant ddefnyddio'r amser hwn i ddal i fyny â gwaith ysgol, neu wneud rhywbeth gwahanol. h.y. amser heb sgrin, neu gyfuniad o'r ddau - beth bynnag sy'n fwyaf addas iddynt;
- gall disgyblion dal i allu cysylltu ag athrawon a fydd ar gael i ymateb i ymholiadau. Bydd athrawon hefyd yn defnyddio'r diwrnod hwn i gynllunio, paratoi ac asesu gwaith.

Mae'n ymddangos y bydd y cyfnod hwn o gloi yn parhau am gyfnod eto. Gobeithiwn y bydd rhannu'r wythnos yn ddau gyfnod o ddau ddiwrnod gydag egwyl yn y canol yn helpu i ysgogi ein holl ddisgyblion, a hefyd yn rhoi gwell cydbwysedd iddynt rhwng gwaith ysgol a'u diddordebau eraill.

Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa, ond byddem hefyd yn croesawu eich adborth yn y cyfamser.

Cofion cynnes

Mr P Edwards  
Pennaeth